Cylchlythyr Gofalaeth Bro Lleu

Eglwys Horeb

Oedfaon:

7	Mai	Y Gweinidog
14	Mai	Uno yn Glanrhyd (10). Sul Gofalaeth
21	Mai	Mr Dafydd Iwan
28	Mai	Y Parchedig Glenys Jones
4	Mehefin	Uno yng Nghapel y Groes (10). Sul Gofalaeth
11	Mehefin	Y Parchedig Angharad Roberts
18	Mehefin	Y Parchedig Brian Wright
25	Mehefin	Y Gweinidog
2	Gorffennaf	Uno ym Mrynaerau (2) Sul Gofalaeth

Wythnos Cymorth Cristnogol 14—20 Mai

F**foaduriaid** led-led y byd fydd yn derbyn ffrwyth ymgyrch Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Pobol fel Nejebar a'i theulu sydd wedi gorfod ffoi o Affganistan ar ôl i'r Taleban fygwth lladd ei gŵr, Noor, oedd yn athro. Roedd rhai aelodau o'i theulu eisoes wedi eu lladd.

Mae'r teulu ar hyn o bryd mewn gwersyll ffoaduriaid yng Ngwlad Groeg. Roeddent wedi credu mai dim ond am ddeg diwrnod y byddent yno, ond meant wedi bod yno am saith mis a dim gobaith i symud oddi yno. Yr unig loches sydd ganddynt yw pabell a does dim ysgol ar gyfer y plant.

Un teulu o blith miloedd tebyg iddo yw teulu Nejebar, ac mae amgylchiadau nifer helaeth o'r teuluoedd hyn yn ddifrifol.

Bydd ein harian ni yn gwneud gwahaniaeth.

Sbri Gŵyl Fai Dyffryn Nantlle Dydd Sadwrn 6 Mai 2017 (10—3)

Mae Gofalaeth Bro Lleu wedi sicrhau Bwrdd Gwerthu yn y Sbri ar gyfer codi arian at Apêl Corwynt Cariad Eglwys Bresbyteraidd Cymru 2017. Bydd yr arian ym mynd i gynorthwyo pobol dlawd yn Ynysoedd y Philipinas. Apelir am nwyddau ar gyfer y bwrdd ynghŷd â gwirfoddolwyr (gwŷr a gwragedd) i gynorthwyo ar y diwrnod. Gofynnir yn garedig am gacennau, cynnyrch cartra neu gynnyrch gardd ynghŷd â nwyddau newydd/bron yn newydd. Ni dderbynnir bric-a-brac, llyfrau na dillad. Diolch yn fawr.

Am ragor o wybodaeth gellir cysylltu â'r gweinidog (676435) neu ag un o swyddogion y capel.